1 GRONFA FUND

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

communities *first* cymunedau *yn gyntaf*

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN I
EUROPEAN UNION OBJECTIVE I
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

PARTNERIAETH SIR GÂR
CARMARTHENSHIRE PARTNERSHIP

Sir Gâr - Meddwl Ynghyd, Cynllunio Ynghyd a Gwneud Ynghyd
Carmarthenshire - Thinking Together, Planning Together, Doing Together

Rhan-ariennir y cyhoeddiad hwn gan Yr Undeb Ewropeaidd

Cynnwys

- Pwy sy'n ariannu'r gronfa? 2
- Beth yw'r broses? 2

Adran 1 – Y Prif Feini Prawf

- Pwy allwn eu hariannu 3
- Pwy na allwn eu hariannu 3
- Faint o grant y gallwn ei roi? 4
- Ar beth y dymunwn wario'r arian 4
- Beth allwn ei ariannu 5
- Beth na allwn ei ariannu 6
- Sut mae gwneud cais am grant 6
- Sut yr asesir eich prosiect 8
- Pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau 8
- Pryd fyddwch yn penderfynu? 8

Adran 2 – Gwybodaeth ychwanegol

- Themâu Trawsbynciol 8
- Gwerth ychwanegol 10
- Cymorth y Wladwriaeth 10
- Arian cyfatebol 11
- Cyhoeddusrwydd 11
- Cwynion, Canmoliaeth a Sylwadau 11

Adran 3 – Atodiadau

- Atodiad I – Sgorio 13
- Atodiad II – Diffiniadau 16

Os dymunwch gael y wybodaeth hon mewn print bras neu ar dâp sain, a fyddech gystal â ffonio **01269 590216**

Cyflwyniad

Nod 1 GRONFA yw ariannu prosiectau newydd ac arloesol fydd yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol Sir Gaerfyrddin.

Byddwn yn derbyn ceisiadau unrhyw bryd, a gwneir penderfyniadau bob chwarter fel rhan o raglen dreigl.

Mae'r llyfryn hwn yn egluro'r broses o wneud cais a'r meini prawf ar gyfer asesu. Wrth i chi weithio drwy'r llyfryn, fe welwch bod rhai geiriau a chymalau mewn print bras. Ystyr hyn yw bod diffiniad byr ohonynt yn Atodiad 2.

BIWRO CYMUNEDOL

COMMUNITY BUREAU

01269 590216

Am ragor o wybodaeth cysyllter os gwelwch yn dda â'r :

e-mail: grants@sirgar.gov.uk
Ffacs: 01269 590290

Canolfan Adnoddau Busnes
Parc Amanwy,
Heol Newydd,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3EP

Pwy sy'n ariannu'r gronfa?

Ariennir rhaglen 1 GRONFA ar y cyd gan: Raglen Amcan 1, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Chyngor Sir Caerfyrddin.

Cyfanswm yr arian sydd ar gael ar gyfer talu grantiau yw £6 miliwn. Yn ôl rheoliadau Ewrop, mae'r swm hwn wedi'i rannu yn £3.9 miliwn ar gyfer wardiau Blaenoriaeth 3 a £2.1 miliwn ar gyfer wardiau Blaenoriaeth 5. Rhennir y symiau hyn eto fyth i £1.4 miliwn o arian refeniw a £2.5 miliwn o arian cyfalaf yn wardiau Blaenoriaeth 3 a £734,500 o arian refeniw a £1.4 miliwn o arian cyfalaf yn wardiau Blaenoriaeth 5. Gellir gweld rhestr o'r wardiau yn Atodiad II. Serch hynny, bydd y rhaglen grantiau yn cael ei rhedeg fel un gronfa. Fe all fod rhywfaint o wahaniaeth yn y math o brosiectau a ariennir yn dibynnu ar y swm o arian sydd ar gael ac ar flaenoriaethau'r ddwy ardal.

Bydd y cynllun grant hwn yn parhau hyd Fehefin 2008.

Beth yw'r broses?

Cysylltwch â'r Biwro Cymunedol

Cewch gymorth i ddatblygu eich prosiect ac i wneud cais

Cyflwynwch gais a bydd yn derbyn cydnabyddiaeth cyn pen 5 diwrnod gwaith

Byddwn yn asesu eich cais ac yn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol gennym

Byddwn yn gwneud penderfyniad ar eich cais

Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw ein penderfyniad

Ar ôl i'r grant gael ei gymeradwyo gellwch ddechrau ar eich prosiect

Os na chaiff y grant ei gymeradwyo byddwn yn rhoi adborth i chi ac yn awgrymu ffordd ymlaen

Byddwn yn cynorthwyo grwpiau i lunio prosesau o reoli'r grant er mwyn iddynt lwyddo i gyflawni eu prosiect, a/neu yn eu cynorthwyo i ddod o hyd i ffynonellau eraill o ariannu

Pwy allwn eu hariannu

1.1 Gallwn dderbyn ceisiadau oddi wrth y sefydliadau canlynol sydd â phrosiect wedi'i leoli o fewn ffiniau Cyngor Sir Caerfyrddin.

- Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol
- Elusennau Cofrestredig
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Sefydliadau di-elw

1.2 Derbynnir ceisiadau sy'n ymwneud â'r **Cyngor Sir** neu **Gorff Cyhoeddus** arall dim ond os yw'r prosiect wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ag un o'r sefydliadau a restrir uchod. Rhaid i'r cais ddod oddi wrth y grŵp cymunedol fel y prif ymgeisydd.

1.3 Hefyd gall **consortia** anffurfiol neu ffurfiol sy'n gweithio ar brosiect penodol wneud cais. Rhaid i bob sefydliad sy'n rhan o gonsortiwm anffurfiol fod yn gymwys ynddynt eu hunain, a rhaid iddynt ddarparu copi o'u **cyfansoddiad** a fabwysiadwyd. Y prif sefydliad ddylai lenwi'r ffurflen gais, a'r sefydliad hwnnw fydd yn gyfreithiol gyfrifol am y grant, a hwy fydd yn derbyn yr arian os fydd y cais yn llwyddiannus.

1.4 Gall **canghennau** lleol o sefydliadau cenedlaethol wneud cais drwy ddefnyddio cyfansoddiad a chyfrifon blynyddol y prif gorff, ond dylent gael eu cyfrif banc eu hunain i dderbyn unrhyw grantiau a roddir. Hefyd bydd angen cadarnhad arnom bod y prif gorff yn cefnogi'r cais.

1.5 Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno'r canlynol gyda'u ffurflen gais:

- Copi o'u **cyfansoddiad, rheolau, Memorandwm ac Erthyglau** neu **ddogfen lywodraethu** arall sydd wedi'u llofnodi a'u mabwysiadu. Os yw enw'r ymgeisydd a'r enw ar y ddogfen lywodraethu yn wahanol, yna mae angen egluro pam.
- Manylion am eich prif gyfrif banc, sydd â dau lofnodwr man lleiaf. Dylai enw'r cyfrif hwn fod yr un enw ag enw'r ymgeisydd. Telir y grant i mewn i'r cyfrif hwn drwy system BACS.
- Copi o'r **cyfrifon blynyddol** diweddaraf sydd wedi'u dilysu neu harchwilio yn annibynnol ac sydd wedi'u derbyn yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol y sefydliad. Dylai grwpiau sydd newydd eu sefydlu roi rhagamcan o'u llif ariannol am gyfnod y prosiect, wedi'i lofnodi a'i ddyddio.
- Datganiad cyfleuoedd cyfartal.

Pwy na allwn eu hariannu

2.1 Nid yw sefydliad yn y sector preifat sy'n dosbarthu ei elw yn gymwys i wneud cais am arian grant o dan y rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sydd â'r hawl o fewn eu cyfansoddiad i ddosbarthu elw neu ddifidend, hyd yn oed os nad yw hynny mewn gwirionedd yn digwydd.

Mae gwybodaeth am ffynonellau eraill o gyllid a chymorth ar gael o'r Biwro Cymunedol ar **01269 590216** neu Llygad Busnes ar **084579697 98**.

2.2 Mae disgwyl i'r sefydliad sy'n derbyn y grant wneud y cais, gan mai hwy sy'n gyfrifol am y modd y caiff yr arian ei wario. Ni fyddwn felly yn derbyn ceisiadau oddi wrth sefydliadau sy'n gwneud cais ar ran sefydliadau eraill. Ni allwn ychwaith dderbyn ceisiadau yn enw codwr arian proffesiynol sy'n gweithio ar eich rhan.

2.3 Rydym yn croesawu ceisiadau oddi wrth sefydliadau crefyddol sy'n dymuno cyflawni gwaith yn y gymuned, ond ni all y rhaglen hon gefnogi gwaith sydd â'r nod o hyrwyddo crefydd a/neu yn eithrio eraill am resymau crefyddol, yn ôl rheoliadau Ewrop ar Amcan 1.

2.4 Ni all y rhaglen ariannu gweithgareddau na chyfarpar chwaraeon. Serch hynny, fe all fod achosion pan allwn ariannu gweithgareddau sy'n targedu'r gymuned ehangach.

Mae gwybodaeth am ffynonellau eraill o gyllid a chymorth ar gael o'r Biwro Cymunedol ar **01269 590216**

Faint o grant y gallwn ei roi?

Cyfanswm cost y Prosiect	Uchafswm grant a roddir	Y mathau o weithgareddau y gellir eu hariannu
Ddim yn gymwys	100% neu £5,000 pa un bynnag yw'r isaf. Dim ond un grant fesul prosiect **Nid yw** grant o dan y categori hwn yn gwarantu grant mwy o faint	Costau un-tro: • Prynu eitemau cyfalaf • Cynlluniau Busnes / Astudiaethau Dichonoldeb • Cael caniatâd hanfodol cyn-prosiect megis Caniatâd Cynllunio, • Arolygon Adeiladu • Costau Dylunio • Cynlluniau peilot i roi syniadau newydd ac arloesol ar brawf. • Arian cyfatebol i grantiau mwy. Nid yw costau cyffredinol a chostau craidd rhedeg y prosiect yn gymwys i'w hariannu
Hyd at £75,000	Hyd at 80%	Y costau cyfalaf a'r costau refeniw cymwys
Dros £75,000	70% neu £180,000 pa un bynnag yw'r isaf	Y costau cyfalaf a'r costau refeniw cymwys
Digwyddiadau	Uchafswm grant o 80% neu £8,000 pa un bynnag yw'r isaf	Fel arfer mae digwyddiadau newydd ond yn cael eu hariannu am flwyddyn. Gall digwyddiadau sy'n bod eisoes wneud cais am elfennau newydd neu ychwanegol i'w digwyddiad.

3.1 Bydd yr uchafswm grant yn amrywio yn ôl maint y prosiect a'r cyfanswm costau fel yr amlinellir isod. Rhagwelir mai mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y rhoddir yr uchafswm grant, sef lle mae'r prosiect yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r hyn y gall y rhaglen ei wireddu.

Ar beth y dymunwn wario'r arian

4.1 Prif thema'r rhaglen hon yw Yr Amgylchedd, Dysgu Gydol Oes, Cymunedau Mwy Diogel, Adfywio, a Iechyd a Lles, sy'n amlygu'r 5 gweledigaeth yn **Strategaeth Gymunedol Sir Gaerfyrddin** a'r **Cynlluniau Cymunedol Lleol**. Bydd y rhaglen yn ceisio gweithredu mentrau a phrosiectau perthnasol a chymwys sy'n cwrdd â'r blaenoriaethau allweddol yn strategaeth y sir, ac yn y cynlluniau lleol. Rhestrir y blaenoriaethau yn Atodiad 1, tudalennau 13-15.

4.2 Mae'n bwysig eich bod yn croes-gyfeirio'r blaenoriaethau â'r rhestr o 'Beth na allwn ei ariannu' ar dudalen 6 gan nad yw pob blaenoriaeth allweddol y Cynlluniau Cymunedol yn gymwys ynddynt eu hunain. Am ragor o wybodaeth cymerwch air â'ch Swyddogion Datblygu neu cysylltwch â'r Biwro Cymunedol ar **01269 590216.**

4.3 Dyma enghreifftiau o brosiectau y gellir eu hystyried ar gyfer grant:

- Gwaith ar neuaddau pentref neu adeiladau eraill a redir gan y gymuned.
- Cylchlythyron Cymunedol.
- Byrddau gwybodaeth a hysbysfyrddau.
- Cynlluniau gwella'r amgylchedd megis llwybrau a llwybrau cerdded newydd neu uwchraddio llwybrau neu greu gardd gymunedol.

- Taflenni i hyrwyddo atyniadau lleol.
- Paneli deunydd esboniadol.
- Digwyddiadau lleol megis gwyliau a redir gan y gymuned sy'n hyrwyddo diwylliant a threftadaeth lleol
- Gweithgareddau dan arweiniad y gymuned sy'n hybu twristiaeth a diwydiannau crefftau e.e. Ffair Goed Sir Gaerfyrddin.
- Trafnidiaeth Gymunedol.
- Gofal lleol a redir gan y gymuned sy'n galluogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith neu i dderbyn hyfforddiant.

Beth allwn ei ariannu

5.1 Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer costau **cyfalaf** a chostau **refeniw** sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosiect cymwys.

5.2 Nid yw'r cynllun yn ôl-weithredol. Ni ellir felly roi cymorth grant tuag at arian sydd eisoes wedi'i wario cyn cael cynnig grant o dan y rhaglen hon. Ni chaniateir eithriadau i'r rheol hon.

5.3 Gall costau cyfalaf gynnwys y canlynol:

- Prynu tir (ni all costau tir fod yn uwch na 10% o gyfanswm y gwariant cymwys, a rhaid i'r tir fod â chyswllt uniongyrchol â'r prosiect).
- Prynu adeiladau (adeiladau sy'n bod eisoes sy'n uniongyrchol berthnasol i'r prosiect).
- Ymchwilio'r safle, ei glirio a gwaith paratoi.
- Costau codi adeilad newydd a/neu adnewyddu gan gynnwys ffioedd proffesiynol lle bo angen.
- Tirweddu a gwaith arall sy'n gwella'r amgylchedd.
- Gosodion a ffitiadau sy'n uniongyrchol berthnasol i'r prosiect mwy.
- Cyfarpar TG pan fo'n uniongyrchol berthasol i nodau'r prosiect.
- Gellir rhoi grant at eitemau symudol a cherbydau dim ond pan fyddant yn rhan annatod o brosiect mwy, ac ystyrir hyn fesul prosiect.

5.4 Gall costau refeniw gynnwys y canlynol (hefyd gweler paragraff **7.7**)

- Costau staff a chyflogau
- Rhent adeiladau newydd neu ychwanegol
- Gwresogi a goleuo
- Ffôn, ffacs a chostau postio
- Costau eraill cynnal swyddfa
- Costau marchnata

5.5 Mae Treth ar Werth (TAW) yn gost cymwys os na all y gymdeithas hawlio'r dreth yn ôl.

5.6 Gellir ystyried ffioedd ymgynghori os yw'r gwaith yn hanfodol i'r prosiect a bod y costau yn rhesymol ee: ffioedd pensaer ar gyfer gweithredu'r prosiect.

5.7 Byddwn yn gofyn am gyfiawnhad clir dros gynnwys Ffioedd Rheoli. Bydd angen i chi ddangos bod cysylltiad clir rhyngddynt â gweithredu'r prosiect.

5.8 Mae **Astudiaethau Dichonoldeb** a **Chynlluniau Busnes** yn gymwys i gael cymorth grant o dan y rhaglen hon cyn belled â bod yr astudiaeth yn ymchwilio i brosiect sydd hefyd yn gymwys i dderbyn arian o dan y cynllun hwn. Byddwn yn gofyn i ymgeiswyr lofnodi datganiad sy'n dangos ymrwymiad i wneud cais am ragor o arian i weithredu'r prif brosiect os yw canlyniadau'r astudiaeth dichonoldeb yn ffafriol.

Bydd angen i gais am astudiaeth dichonoldeb gael ei ategu gan y canlynol:

- Brîff cynhwysfawr am y prosiect. Dylai'r brîff hwn gynnwys cyflwyniad, manylion am y cleient, eich gofynion, dull cyflwyno adroddiadau, amserlen, gweithdrefn dewis, dull talu, ac unrhyw amodau eraill angenrheidiol.

• Cadarnhad y bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno cais ar gyfer y prosiect llawn os yw'r astudiaeth yn llwyddiant.

Nid yw grant ar gyfer astudiaeth dichonoldeb yn gwarantu grant pellach ar gyfer y prosiect llawn.

5.9 Mae'n bosibl o dan rhai amgylchiadau y gellir ariannu'r canlynol, er bod hynny fel arfer y tu allan i ganllawiau ariannu y cynllun hwn:

• Cyfleusterau gwarchod plant sydd â chysylltiad uniongyrchol â gweithgareddau o natur economaidd sy'n ymwneud yn benodol ag amcanion y rhaglen megis galluogi rhieni/gwarcheidwaid i ddychwelyd i'r gwaith neu i dderbyn hyfforddiant.

• Canolfannau arbenigol sy'n cynnig addysg dechnegol neu hyfforddiant galwedigaethol. Fodd bynnag, bydd y mwyafrif o weithgareddau dysgu yn cael eu cyfeirio ymlaen at Rwydwaith Dysgu Sir Gaerfyrddin.

Beth na allwn ei ariannu

6.1 Ni fyddwn fel arfer yn ariannu'r mathau canlynol o weithgareddau:

• Gwaith sydd eisoes wedi cychwyn neu lle mae ymrwymiad wedi'i wneud i'r gwariant ee: bod archeb wedi'i wneud neu bod contractau wedi'u llofnodi.

• arian sydd eisoes wedi'i wario cyn cael cynnig grant ee: paratoi cynlluniau neu gael caniatâd statudol.

• gweithgareddau craidd y sefydliad (gweler y paragraff ar werth ychwanegol **12.1**).

• gweithgareddau a dargedir yn benodol ar gyfer y rhai dan 14 oed.

• ariannu addoldai nas defnyddir at ddefnydd cyffredinol y gymuned ee: Capeli ac Eglwysi.

• cyfleusterau neu weithgareddau chwaraeon.

• cyfleusterau cyhoeddus e.e. llyfrgelloedd cyhoeddus, toiledau.

• dyletswyddau a gwasanaethau statudol gan gynnwys addysg gyffredinol, ysbytai, cartrefi nyrsio, gwasanaeth tân, yr heddlu.

• diogelu'r arfordir, gwarchodaeth pridd a seilweithiau.

• adeiladu ac adnewyddu tai.

• gweithgareddau sydd ond yn cynnwys neu'n cynnwys yn bennaf gwaith cynnal-a-chadw arferol, ôl-ofal, trwsio neu ddisodli'r hen gyda'r newydd.

• prynu tir (gweler para **5.3**).

• cerbydau (gweler para **5.3**).

Sut mae gwneud cais am grant

7.1 *Ymhle y cewch chi gymorth?*
Y pwynt cysylltu cyntaf yw'r Biwro Cymunedol **01269 590216**. Gallant hwy eich rhoi mewn cysylltiad â'r person mwyaf priodol fydd yn eich helpu i ddatblygu eich prosiect, gwneud cais am grant, ac i roi eich prosiect ar waith.

7.2 *A oes ffurflen gais ar gael?*
Oes. Rhaid cyflwyno pob cais ar y ffurflen gais swyddogol. Gall ein Cynothwywr Cyllid Cymunedol eich helpu i lenwi'r ffurflenni hyn.

7.3 *Pa wybodaeth arall sydd angen i ni ei rhoi?*
Bydd angen i chi gyflwyno'r canlynol i gefnogi eich cais.

• Copi o'ch cyfansoddiad neu ddogfen lywodraethu.
• Y cyfrifon blynyddol diweddaraf.
• Cadarnhad eich bod wedi cael addewid o arian

cyfatebol neu eich bod yn chwilio am arian cyfatebol.
- Cadarnhad eich bod wedi cael pob caniatâd statudol.
- Datganiad Cyfleuoedd Cyfartal.

7.4 Pan fydd prosiect yn golygu prynu cyfarpar, celfi, deunydd traul swyddfa, neu gyflogi gwasanaethau gweithwyr proffesiynol, yn cynnwys gwaith adeladu neu adnewyddu adeilad byddwn yn gofyn am y dystiolaeth ganlynol i sicrhau y defnyddiwyd proses deg ac agored.

Amcan-bris	Camau tendro sy'n ofynnol
Dan £250	Dim angen dyfynbris
£250 hyd at £500	Un dyfynbris llafar
£501 hyd at £1,000	2 ddyfynbris llafar man lleiaf
£1,001 hyd at £2,500	Dylid cael o leiaf 3 dyfynbris dros y ffôn. Dylid cadarnhau'r dyfynbrisiau hyn drwy ffacs os yn bosibl neu eu nodi yn ysgrifenedig.
£2,501 hyd at £15,000	O leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig ar sail manyleb ysgrifenedig clir o'r gofynion (y 3 yn seiliedig ar yr un fanyleb a'r un dyddiad cau).
£15,001 hyd at £50,000	Fel arfer dylid gwahodd o leiaf 3 tendr cystadleuol ffurfiol
£50,000 a throsodd	Fel arfer dylid gwahodd o leiaf 4 i 6 tendr cystadleuol ffurfiol.

7.5 Ar gyfer prosiectau adeiladu byddwn hefyd yn gofyn am y canlynol:

- Tystiolaeth o berchnogaeth neu brydles ar yr adeilad (dylai prydlesi fod â 15 mlynedd man lleiaf o oes yn weddill).
- Cynlluniau pensaer ar gyfer y gwaith arfaethedig.
- Costau manwl a baratowyd gan Faint Fesurydd
- Caniatâd cynllunio (os yn briodol).
- Cymeradwyaeth Newid Defnydd (os yn briodol).
- Cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu (os yn briodol).
- Caniatâd adeilad rhestredig (os oes angen).
- Cadarnhad y byddwch yn cydymffurfio â deddfwriaeth **Adeiladu, Dylunio a Rheoli** ac y penodir **Goruchwylydd Cynllunio** (lle bo angen).
- Cadarnhad y byddwch yn cadw at bob un o'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch.

7.6 Os ydych yn ymgymryd â phrosiect Amgylcheddol, bydd angen i chi gysylltu â'r corff priodol a chael y caniatâd angenrheidiol ee: Asiantaeth yr Amgylchedd, Y Comisiwn Coedwigaeth.

7.7 Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys costau refeniw, bydd angen y wybodaeth ganlynol arnom

- Lle mae'r prosiect yn golygu costau staff, bydd angen disgrifiadau swydd ar gyfer swyddi newydd a swyddi sy'n bod eisoes. Mae costau cyflogau ond yn gymwys os ydynt ynghlwm wrth brosiect penodedig. Fel arfer byddwn yn gofyn am **gynllun gweithredu** ar gyfer y prosiect cyfan.

- Os yw costau prosiect yn cynnwys rhent, bydd angen i chi roi tystiolaeth bod angen y lle ychwanegol ar gyfer y prosiect.

7.8 *A allwn wneud mwy nag un cais?*
Dim ond un cais y mae hawl ei wneud ar gyfer pob prosiect. Mewn rhai amgylchiadau fe all fod yn bosibl i gyflawni'r prosiect fesul cam, ac y cewch wneud cais arall unwaith y bydd cam wedi'i gwblhau. Nid yw cael grant ar gyfer un cam yn gwarantu y cewch grant ar gyfer y camau eraill.

Os ydych yn rhedeg mwy nag un prosiect ac eisoes yn derbyn grant, byddwn yn craffu'n ofalus iawn ar allu eich sefydliad i reoli grant arall.

Sut yr asesir eich prosiect

8.1 Gan mai prin yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael, asesir ceisiadau yn unol â meini prawf a ddisgrifir yn fanwl yn Atodiad 1. Mae'r meini prawf hyn wedi'u llunio i amlygu blaenoriaethau **Strategaeth Gymunedol Sir Gaerfyrddin** a'r **Cynlluniau Cymunedol Lleol** yn ogystal â blaenoriaethau'r cynllun Amcan 1.

8.2 Bydd y broses yn cynnwys ymgynghori â sefydliadau allweddol megis Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CGGSG), cadeirydd partneriaeth berthnasol y cynllun cymunedol, a sefydliadau eraill megis Cymunedau'n Gyntaf fel sy'n briodol. Cymerir eu sylwadau i ystyriaeth.

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad?

9.1 Bydd eich cais yn cael ei asesu a'i sgorio gan Swyddog Grant drwy ddefnyddio'r meini prawf sgorio a nodir ar dudalennau 11-14.

9.2 Yr aelod o Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin dros Adfywio a Hamdden fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol. Gwneir penderfyniadau bob chwarter. Fodd bynnag, bydd system llwybr cyflym o wneud penderfyniadau ar geisiadau sydd â chyfanswm costau'r prosiect yn llai na £5,000.

9.3 Mae'n ddigon posibl y byddwn yn dod yn ôl atoch unrhyw adeg yn ystod y broses hon am ragor o wybodaeth i'n helpu i ddod i benderfyniad.

Pryd fyddwch yn penderfynu?

10.1 Gellir cyflwyno cais unrhyw adeg, ac ymdrinnir â hwy ar sail y cyntaf i'r felin. Serch hynny, bydd yr aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud penderfyniadau bob chwarter fel rhan o raglen dreigl.

10.2 Mae'n bwysig eich bod yn caniatau digon o amser i'r cais gael ei brosesu, yn enwedig os ydych yn gwneud cais am arian i farchnata digwyddiad. Ni all y gronfa ariannu unrhyw gostau a dynnwyd neu yr ymrwymwyd iddynt cyn i chi dderbyn cynnig ffurfiol o grant.

10.3 Gall y Cynorthwywr Cyllido Cymunedol roi gwybodaeth i chi ynghylch dyddiadau cyflwyno a chymeradwyo.

10.4 Bydd proses llwybr cyflym o wneud penderfyniadau ar geisiadau sydd â'u cyfanswm costau yn llai na £5,000. Swyddogion sydd â phwerau dirprwyedig fydd yn gwneud y penderfyniadau hyn.

Themâu Trawsbynciol

11.1 Yn ogystal a'r pum gweledigaeth allweddol, sef Yr Amgylchedd, Dysgu Gydol Oes, Cymunedau Mwy Diogel, Adfywio, a Iechyd a Lles, mae hefyd themâu trawsbynciol sy'n gyffredin i bob rhaglen Amcan 1 yn Sir Gaerfyrddin. Bydd angen i bob prosiect ddangos sut mae'n ymdrin â phob thema.

11.2 Cyfleuoedd Cyfartal

Mae'n bwysig bod y prosiectau a noddir gan y rhaglen hon yn agored i bob aelod o'r gymuned. Rhaid i ymgeiswyr ddangos mewn polisi Cyfle Cyfartal ysgrifenedig sut fyddant yn sicrhau bod y prosiect yn agored i bawb yn eu grŵp targed.

Ni ddylai prosiectau wahaniaethu yn erbyn menywod na dynion, pobl anabl, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd du ac ethnig, na siaradwyr Cymraeg. Hefyd dylid ystyried gogwydd rhywiol, oedran a chrefydd.

Os yw eich prosiect ond yn targedu un o'r grwpiau a restrir uchod, ee: menywod, bydd rhaid i chi gymryd iaith, oedran, anabledd ac ati i ystyriaeth.

Am ragor o wybodaeth gweler 'Canllawiau Cyfle Cyfartal ar gyfer Rhaglenni Ewrop yng Nghymru' ar www.wefo.wales.gov.uk

11.3 Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Yn 1987 diffiniwyd cynaliadwyedd gan Gomisiwn Brundtland fel:

'Datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.'

Datblygu cynaliadwy, yn ei hanfod, yw model o ddatblygu sy'n anelu at fwrw ymlaen â thwf economaidd, cynhwysiant a gwelliant cymdeithasol, a diogelu a gwella'r amgylchedd, ar gyfer heddiw a'r cenedlaethau sydd i ddod, a hynny mewn modd sy'n dderbyniol i bob ochr.

Mae datblygiad cynaliadwy yn llawer mwy na lleihau gymaint â phosibl ar effaith datblygu economaidd ar yr amgylchedd. Mae'n golygu troi cefn ar wneud penderfyniadau fesul pwnc unigol, a meddwl yn hytrach yn nhermau'r elfennau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach hynny sydd, gyda'i gilydd, yn gyfystyr â safon byw i holl drigolion y sir. Mae'n golygu ymagwedd cwbl newydd tuag at gynllunio datblygu lle cymerir costau a buddion llawn yr elfennau hyn i ystyriaeth a'u hymgorffori'n llawn yn y broses gynllunio o'r cychwyn yn deg.

Am ragor o wybodaeth gweler 'Cynyddu Cynaliadwyedd Amgylcheddol Rhaglen Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd' ar www.wefo.wales.gov.uk

11.4 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGC)

Cydnabyddir bod TGC yn cael effaith ar bob agwedd ar fywyd. Mae pawb bron yn defnyddio'r teledu, fideo neu'r ffôn, cyfrifiaduron, ffoniau symudol a'r Rhyngrwyd. Mae'r technolegau newydd hyn yn effeithio ar y modd yr ydym yn gweithio ac yn cynnal ein busnes, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ac adloniant, dysgu, cymryd rhan yn y broses wleidyddol, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, ac yn y blaen.

Rhaid i bob ymgeisydd ddangos eu bod wedi ystyried sut mae gwneud y budd mwyaf posibl o TGC o ran eu prosiect, megis rhoi hyfforddiant neu ddosbarthu gwybodaeth am y prosiect.

Am ragor o wybodaeth gweler 'Cynyddu Potensial y Gymdeithas Wybodaeth' ar www.wefo.wales.gov.uk

11.5 Yr Iaith Gymraeg

Mae cydraddoldeb iaith yn agwedd bwysig ar gyfle cyfartal, sy'n mynd law yn llaw â'r agweddau hil, rhyw, oed ac agweddau eraill o gydraddoldeb.

Dengys gwaith a wnaed ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan Ymchwil Beaufort:

- Bod mentrau a gweithgareddau yn y gymuned sy'n defnyddio'r Gymraeg yn debygol o'u gwneud yn fwy poblogaidd.

- Bod defnyddio'r Gymraeg hefyd yn debygol o wneud y cwsmer yn fwy teyrngar, gan arwain at fwy o sefydlogrwydd o ran trosiant nwyddau a gwasanaethau, a thrwy hynny ddiogelu swyddi.

- Hefyd mae stamp Cymraeg yn gyfystyr i lawer â nod ansawdd, a bod y cynnyrch neu'r gwasanaeth yn fwy 'gwyrdd'.

- Fe all hefyd fod yn agwedd bwysig o arbenigrwydd ardal.

Rhaid i bob cais ddangos eu bod wedi ystyried materion yr iaith Gymraeg wrth ddatblygu eu prosiect, ac wedi cymryd camau ymarferol yn ystod gweithredu'r prosiect i ddefnyddio'r iaith.

Am ragor o wybodaeth gweler 'Canllawiau Cyfle Cyfartal ar gyfer Rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru' ar www.wefo.wales.gov.uk

11.6 Cynhwysiant Cymdeithasol
Dylai prosiectau ddangos sut fyddant yn ymdrin â'r rhwystrau sy'n llesteirio rhai pobl rhag chwarae rhan lawn yn eu cymdeithas megis diffyg gwaith, sgiliau gwan, iechyd gwael a diffyg gwasanaethau a chyfleusterau.

Am ragor o wybodaeth gweler 'Strategaeth Cynhwysiant Sir Gaerfyrddin a'r Cynllun Gweithredu'.

Gwerth Ychwnaegol

12.1 Mae'n sylfaenol bwysig bod pob prosiect yn gallu dangos bod angen y grant arnynt cyn y gallant gario ymlaen. Dylai ceisiadau allu dangos;

- Bod y prosiect yn ychwanegol i weithgareddau craidd y sefydliad;
- Y bydd y grant yn galluogi'r prosiect i fynd rhagddo; a/neu yn cyflymu'r gwaith o weithredu'r prosiect;
- Y byddant yn gallu cynyddu hyd a lled y prosiect
- Y bydd gwelliant yn ansawdd y gweithgareddau
- Y bydd y grant yn rhyddhau adnoddau i alluogi prosiect arall fynd rhagddo.

Cymorth y Wladwriaeth

13.1 Mae cymorth y wladwriaeth yn effeithio prosiectau o natur masnachol sydd yn cystadlu a'r sector breifat.

13.2 Mae nifer o reolau sy'n llywio'r defnydd a wneir o gyllid Ewrop. Un o'r rhain yw swm y cyllid cyhoeddus (cymorth y wladwriaeth) y gellir ei ganiatau i sefydliad sydd â changen masnachu e.e. mae mentrau cymunedol yn dod o fewn y categori hwn. Rhoddir terfyn ar y swm o gymorth cyhoeddus a roddir er mwyn sicrhau nad yw'r cymorth yn cael effaith ar fasnach a chystadleuaeth. I sicrhau bod y cynllun 1 GRONFA yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn, gweithredir y cynllun fel a ganlyn:

Grantiau Cyfalaf
13.3 Caniateir cyllid cyfalaf o hyd at 50% o gyfanswm costau cyfalaf o dan Eithrio Bloc Mentrau Bach a Chanolig yr UE. Mae'r Eithrio Bloc Mentrau Bach a Chanolig yn golygu bod y Comisiwn wedi cytuno na fydd grantiau hyd at 50% yn amharu ar gystadleuaeth.

Grantiau Refeniw
13.4 Caniateir ariannu o ffynonellau cyhoeddus hyd at 100,000 Ewro (tua £60,000) ar y sail nad yw symiau bach o gymorth ariannol yn cael effaith ar fasnach a chystadleuaeth. Gelwir y symiau bach hyn o gymorth ariannol yn gymorth de-minimus.

Mae'r rheol de-minimus yn berthnasol i 1 GRONFA ag i sawl cynllun arall o grantiau cyhoeddus. Yr uchafswm grant a ganiateir i un sefydliad o bob

ffynhonnell gyhoeddus dros gyfnod o 3 blynedd yw 100,000 Ewro (sef rhyw £60,000). Felly os ydych eisoes wedi derbyn cymorth de-minimus o ffynonellau eraill yn ystod y 3 blynedd diwethaf, **rhaid** i chi roi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin, fel gweinyddwyr y gronfa, gan y bydd hyn yn effeithio ar swm y grant y gellir ei roi i chi.

Arian Cyfatebol

14.1 Arian cyfatebol yw'r enw a ddefnyddir i ddisgrifio'r arian a godir o ffynonellau eraill heblaw am arian Ewrop tuag at y prosiect. Rhaid i'r arian hwn fod yn '**arian glân**'. Ystyr hyn yw na all yr arian ddod o ffynhonnell Ewropeaidd arall neu arian sydd eisoes wedi'i ddefnyddio neu fydd yn cael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol i gyllid Ewropeaidd arall ar gyfer prosiect gwahanol.

14.2 Gellir rhannu arian cyfatebol yn ddau gategori: arian cyfatebol cyhoeddus ac arian cyfatebol preifat. Hefyd gellir ei rannu eto yn arian cyfatebol gwirioneddol ac arian cyfatebol mewn da.

14.3 Arian Cyfatebol Gwirioneddol
Gall hyn gynnwys y canlynol – nid yw'r rhestr hon yn gyflawn

- Taliadau uniongyrchol gan y budd-ddeiliaid terfynol, yn ôl y gwariant ar y prosiect
- Refeniw'r sector preifat ar gyfer prosiectau
- Arian a roddir i'r prosiect

14.4 Arian Cyfatebol mewn da
Arian cyfatebol heblaw am arian parod yw hyn sy'n cynnwys nwyddau neu wasanaethau y mae'r ariannwr cyfatebol wedi cytuno i roi i'r prosiect yn y cyfnod ariannu perthnasol. Enghreifftiau o hyn yw:

- Cyflenwi tir
- Cyflenwi'r deunydd crai
- Gwaith gwirfoddol, yn ddi-dâl a wneir gan berson neu gorff preifat.
- Hurio ystafell a roddir yn ddi-dâl.

Pan ddefnyddir amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol, mae'r amodau canlynol yn gymwys:

- Dylid defnyddio methodoleg dderbyniol i gostio amser gwirfoddolwyr. Gall y Swyddogion Datblygu a'r Cynorthwywyr Cyllido Cymunedol eich helpu yn hyn o beth.

- Dim ond y gwirfoddolwyr hynny fydd yn gweithredu yn gyfan gwbl fel gwirfoddolwyr fydd yn gymwys. Ni fydd gweithiwr cyflogedig sy'n cyflawni dyletswyddau ychwanegol 'gwirfoddol' yn gymwys.

- At ddibenion archwilio, bydd angen i ymgeiswyr ddangos y gallant gadarnhau hawliadau am waith gwirfoddol di-dâl, a hefyd y gwerthoedd tybiannol a roddir ar weithgareddau. Dylai rheolwyr y prosiect gadw cofnodion llawn, cywir, sy'n cynnwys y manylion diweddaraf, ac sy'n dangos natur y gweithgareddau a wneir gan y gwirfoddolwyr gyda dyddiadau ac amserlenni dilys.

Cyhoeddusrwydd

15.1 Bydd gofyn i bob prosiect sy'n cael ei ariannu gydnabod ym mhob cyhoeddusrwydd a geir drwy'r cyfryngau ac ar bob cyfarpar ac adeiladau cyfalaf ei fod wedi derbyn grant. Bydd prosiectau sydd wedi llwyddo i gael grant yn derbyn rhagor o gyfarwyddyd ynghylch cyhoeddusrwydd gyda'r llythyr sy'n cynnig grant iddynt.

Gweithdrefn Cyngor Sir Caerfyrddin ar Ymdrin â Chwynion, Canmoliaeth a Sylwadau

16.1 Mae'r penderfyniadau a wneir gennym ar geisiadau grant yn derfynol, Fodd bynnag, os oes

unrhyw sylw gennych i'w wneud ynglyn â'n proses o wneud cais, dylech ddilyn y drefn a amlinellir isod.

16.2 Fel Cyngor, rydym yn benderfynol o ddarparu gwasanaethau i chi mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Dyna yw ein nod, ac mae eich sylwadau yn werthfawr i ni gan mai ein dymuniad yw gweithio gyda'n gilydd i wireddu'r nod hwn.

16.3 I gyrraedd y nod, mae angen eich cymorth arnom, ac rydym wedi cyflwyno gweithdrefn sy'n croesawu eich cwynion, canmoliaeth a'ch sylwadau.

16.4 Cydnabyddwn ei bod yn bwysig dysgu o'r hyn a ddywedwch wrthym, nid yn unig o ran ymdrin â'r hyn sydd gennych chi yn bersonol dan sylw, ond hefyd o ran sicrhau ein bod yn gwella ein gwasanaethau.

16.5 Mae sawl ffordd o wneud cwyn, canmol neu gyflwyno sylwadau.

Gellwch:

- Ymweld ag unrhyw un o'n Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid (yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman).
- Llenwi'r ffurflen yn y daflen 'Eich Cyfle i Ddweud eich Dweud'.
- Ymweld â'n gwefan www.sirgar.gov.uk (gellwch lenwi ffurflen gwyno ar-lein).
- Ysgrifennu llythyr at Swyddog Cwynion, Canmoliaeth a Sylwadau Cwsmeriaid y gwasanaeth yr ydych yn cwyno yn ei gylch, ei ffonio neu anfon e-bost ato (mae'r manylion cysylltu yn y daflen 'Eich Cyfle i Ddweud eich Dweud').
- Cymerwch air â'ch Cynghorydd lleol.

Os dymunwch gael copi o'r daflen 'Eich Cyfle i Ddweud eich Dweud' yna ffoniwch **0845 6580445** neu contactcentre@sirgar.gov.uk

Atodiad I - Sgorio'r Prosiect

Defnyddir y rhester wirio isod i sgorio a blaenoriaethu pob cais.

Meini prawf	Sgôr	
CYNNWYS STRATEGOL • Dim Strategaeth Ardal	0	
• Strategaeth Bentref	50	
• Strategaeth Genedlaethol	75	
• Cynllun Cymunedol	100	
CYDWEDDU Â GWEITHGAREDDAU ERAILL Perthynas waith uniongyrchol â phartneriaid eraill yn y cynllun hwn. Rhaid cyflwyno llythyron o gefnogaeth i ddangos y berthynas hon • Dim	0	
• 1 Sefydliad / Grŵp Cymunedol	20	
• 2 Sefydliad / Grŵp Cymunedol	40	
• 3 Sefydliad / Grŵp Cymunedol	60	
• 4 Sefydliad / Grŵp Cymunedol	80	
• 5+ Sefydliad / Grŵp Cymunedol	100	
GWERTH YCHWANEGOL • Darpariaeth leol eisoes yn bod.	0	
• Dim darpariaeth leol.	50	
• Trydydd corff cymwys annibynnol wedi dangos bod galw am y ddarpariaeth.	100	
GWERTH YR ARIAN Y grant y gwneir cais amdano fel % o gyfanswm cost y prosiect Mwyaf i gyd o arian cyfatebol sydd gennych uchaf i gyd fydd eich sgôr. Yr un yw eich sgôr â'r % o arian cyfatebol sydd gennych, fel % o gyfanswm cost y prosiect. Enghreifftiau gyferbyn	Mae gofyn am 80% o gymorth grant yn golygu bod gennych 20% o'r arian yn barod felly sgôr gwerth yr arian yw 20. ***Neu*** gofyn am 35% o grant yn golygu bod gennych 65% o'r arian yn barod felly'r sgôr am werth yr arian yw 65.	
CREU GWAITH Creu swyddi llawn-amser • 1 swydd	*Swyddi sy'n cael eu creu* 25	*Swyddi a ddiogelir*
• 2-5 swydd	50	10 pwynt yr un hyd at uchafswm o 100
• 6-9 swydd	75	
• 10+ swydd	100	
Bydd pob swydd gaiff ei chreu yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol a swyddi a ddiogelir yn cael eu cyfrif fel 1 swydd. Bydd swyddi rhan-amser yn cael eu sgorio pro-rata.		

Meini prawf	Sgôr
DICHONOLDEB/ CYNALIADWYEDD • Dim strategaeth ymadael wedi'i pharatoi. • Strategaeth ymadael wedi'i pharatoi. • Cyllid parhau wedi'i gadarnhau.	 0 50 100
Lle Gwell - Yr Amgylchedd • Amddiffyniad amgylcheddol. • Diogelu a gwella'r amgylchedd. • Rheoli gwastraff.	50 Pwynt am bob blaenoriaeth a ddiwellir hyd at uchafswm o 5 blaenoriaeth
Agor Drysau – Dysgu Gydol Oes • Plant a phobl ifanc • Addysg, hyfforddiant, gwaith, dysgu yn y gweithle, addysg rhan-amser, TG ac adnoddau • Hyrwyddo dysgu gydol oes	
Teimlo'n Dda – Iechyd a Lles • Gwella iechyd • Hybu a gorfodi safonau o iechyd da • Cefnogi plant mewn angen • Gwella safon tai a nifer y tai sydd ar gael • Gwella argaeledd ac ansawdd gwasanaethau i oedolion a'u gofalwyr • Y celfyddydau a diwylliant • Cefn Gwlad a Mannau Agored • Chwaraeon a Chyfleusterau • Sicrhau cymorth cyfreithiol a chefnogaeth ar faterion megis dyledion	
Buddsoddi ac Arloesi – Adfywio • Adfywio Ardal • Datblygu'r Farchnad Lafur • Creu Swyddi a Chynhyrchiant • Cadw a Denu Gweithlu Ifanc	
Teimlo'n Ddiogel - Cymunedau mwy diogel • Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol ac Ofn Troseddau • Camddefnyddio Sylweddau • Cam-drin yn y Cartref • Bwrgleriaethau • Troseddau Treisiol sy'n ymwneud ag alcohol • Troseddau yn ymwneud â Cherbydau • Diogelwch ffyrdd	

Atodiad I - Sgorio'r Prosiect *(parhad)*

Mae'r sgoriau a roddir uchod hefyd yn cael sgôr pwysiad fel a ganlyn :

(A). Meini prawf	(B). Pwysiad	(C). Sgorio		(D). Sgôr pwysiad hy: B x C
Cynnwys Strategol e.e. (Cynllun Cymunedol)	**I**			
Cydweddu â gweithgareddau eraill	**I**			
Gwerth ychwanegol	**I**			
Gwerth yr arian	**4**			
Creu swyddi	**5**	**Creu**	**Diogelu**	
Dichonoldeb/ Cynaliadwyedd	**4**			
Themâu a Blaenoriaethau	**I**			

Atodiad 11 - Diffiniadau

Ardaloedd Blaenoriaeth 3 a Blaenoriaeth 5

Priority 3	Priority 5
Rhestr 1	• Hendy-gwyn
• Llangeler	• Llanboidy
• Glyn	• Talacharn
• Llangynderyn	• Sanclêr
• Saron	• Trelech
• Glanaman	• Llansteffan
• Pen-y-groes	• Cynwyl Elfed
• Llandybie & Heol-ddu	• Gorllewin Caerfyrddin
• Pontyberem	• De Caerfyrddin
• Chwarter Bach Llynfell	• Gogledd Caerfyrddin
• Brynaman	• Llangunnwr
• Garnant	• Abergwili
• Y Tymbl	• Cenarth
• Trimsaran	• Llanfihangel-Ar-Arth
• Betws	• Llanybydder
• Glanymôr	• Llanishmael
Rhestr 2	• Llanddarog
• Llwynhendy	• Gorslas
• Felin-foel	• Llannon (Cross Hands)
• Tyisha	• Penbre
• Pantyfynnon	• Porth Tywyn
• Bigyn	• Hengoed
• Bynea	• Dyffryn y Swisdir
• Cydweli	• Llangennech
	• Dafen
A rhannau o :	• Elli
• Porth Tywyn - Cefn Sidan	• Lliedi
• Cross Hands	• Hendy
• Llanddarog	• Tycroes
	• Rhydaman (Myddynfych)
	• Pontamman
	• Llanegwad
	• Llanfihangel Aber bythych
	• Llandeilo
	• Llangadog, Llansadwrn
	• Llanymddyfri
	• Cilycwm (gweler Llanymddyfry)
	• Cynwyl Gaeo
	• Manordeilo
	• Llangeler
	Yn rhai rhannau o :
	• Porth Tywyn - Cefn Sidan
	• Cross Hands
	• Llanddarog

Ariannu Cyfatebol

Ni ellir ariannu prosiectau yn gyfan gwbl gydag arian Cronfa Strwythurol. Rhaid i'r gweddill gael ei gyfrannu gan y noddwr/noddwyr eu hunain, a gelwir hyn yn ariannu cyfatebol. Arian cyfatebol yw'r swm o arian heblaw am arian Ewrop sydd ei angen i dalu costau llawn y prosiect. Mae dau fath o arian cyfatebol:

• ***Arian cyfatebol gwirioneddol***, sef arian parod.

• ***Arian cyfatebol mewn da***, sef sefydliad neu unigolyn yn rhoi gwasanaeth neu gynnyrch yn ddi-dâl ac nad yw o'r herwydd yn ymddangos yng nghyfrifon y prosiect. Y rhoddwr fydd yn gyfrifol am y costau hyn.

Arian Glân

Arian yw hwn sydd heb ddod o ffynhonnell Ewropeaidd arall nac arian sydd eisoes wedi'i ddefnyddio neu fydd yn cael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol i gyllid arall yr UE.

Astudiaeth dichonoldeb

Bydd arianwyr o bosibl yn dymuno cael prawf – neu o leiaf dystiolaeth gref - bod prosiect mawr yn ddichonol cyn buddsoddi symiau mawr o arian ynddo.

Dylai astudiaeth dichonoldeb nodi'n glir yr amodau y mae'n rhaid wrthynt cyn y gall y prosiect fod yn ddichonol. Fe all olygu:

• edrych ar brofiad mentrau tebyg,

• meddwl drwy broblemau ymarferol,

• gwneud rhagamcanion o'r defnydd a wneir o'r prosiect, yr adnoddau sydd eu hangen, sut y bwriedir creu incwm yn y dyfodol a'i gynnal, y cydweithrediad sydd ei angen gan asiantaethau eraill, a

• nodi'r gofynion o ran rheoli a threfniadaeth.

Ffynhonnell:www.governmentfunding.org.uk

Awdurdod Statudol a Chyrff Cyhoeddus

Corff y mae'n ofynnol iddo yn ôl y gyfraith i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac sy'n derbyn arian gan y llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol, megis awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol. *Ffynhonnell: Society Guardian Glossary*

Canghennau
Dyma lle mae'r gangen leol yn rhan o sefydliad mwy (neu brif gorff). Er mwyn gallu gwneud cais bydd angen i'r gangen fod â'i chyfrif banc ei hun a reolir gan bwyllgor lleol, a chadarnhad bod y prif gorff yn cefnogi'r cais.

Consortiwm/Consortia
Consortiwm anffurfiol yw dau neu fwy o gyrff yn dod at ei gilydd i weithio ar brosiect penodol.

Consortiwm ffurfiol yw cyrff unigol yn sefydlu corff ar wahân gyda chyfansoddiad i gyflawni prosiect.

Costau Cyfalaf/Cyllid Cyfalaf
Defnyddir cyllid cyfalaf i brynu pethau sefydlog megis adeilad, cyfrifiadur, a chelfi swyddfa. Bydd cyllid cyfalaf yn eich galluogi i brynu llwyth o frics, a bydd cyllid refeniw yn eich galluogi i gyflogi pensaer i ddweud wrthych beth i'w wneud â'r llwyth brics.
Ffynhonnell: www.sbbc.co.uk

Cyfansoddiad
Dogfen yw hon gaiff ei llunio gan sefydliad er mwyn diffinio'r modd y bydd yn gweithredu. Mae sawl gwahanol ffurf ar gyfansoddiad. Bydd cyfansoddiad yn disgrifio pwrpas y sefydliad, ac yn nodi hawliau a chyfrifoldebau aelodau'r sefydliad. Bydd yn amlinellu pwy sydd â'r hawl i wneud arian o'r sefydliad a phwy sydd heb yr hawl honno, ac fel arfer mae'n diffinio'r rheolau ar gyfer cadw cyfrifon y sefydliad a chwblhau ei adroddiadau blynyddol.

Mae sawl gwahanol ffurf ar gyfansoddiad yn dibynnu ar y math o sefydliad.

Sefydliadau anghorfforaethol	Cyfansoddiad
Ymddiriedolaeth	Gweithredoedd yr Ymddiriedolaeth / Datganiad o Ymddiriedaeth
Corfforedig / Cwmni	Memorandum ac Erthyglau Cwmni
Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus	Rheolau

Weithiau bydd cyfansoddiad Neuadd Bentref yn rhan o Weithredoedd yr adeilad.
Ffynhonnell: www.sbbc.co.uk

Cyfrifon/Cyfrifon Blynyddol
Cyfrifon yw ffordd o 'roi cyfrif' am yr hyn sydd wedi digwydd yn ariannol. Gallant gwmpasu unrhyw gyfnod. Rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau lunio cyfrifon blynyddol. Fel arfer caiff cyfrifon blynyddol eu llunio ar ddiwedd blwyddyn ariannol, a dylent roi darlun llawn a chlir o drafodion y sefydliad yn ystod y flwyddyn cynt a'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Fel rheol bydd sefydliad yn cyflwyno'r cyfrifon hyn yn ei Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Rhaid i elusennau cofrestredig o bosibl anfon eu hadroddiad a'u cyfrifon blynyddol at y Comisiwn Elusennau bob blwyddyn, a rhaid i gwmnïau cofrestredig anfon eu cyfrifon blynyddol hwy at Dŷ'r Cwmnïau.

Rhaid i bob elusen baratoi a chynnal cofnodion ariannol. Rhaid cadw'r cofnodion hyn (llyfrau arian, anfonebau, derbynebau ac ati) am gyfnod o chwe mlynedd man lleiaf. Mae hawl gan y cyhoedd gael gweld y cyfrifon hyn drwy gais.

Hefyd mae gofynion ychwanegol ar elusennau, yn dibynnu ar incwm a gwariant yr elusen - yn fras, mwyaf i gyd yw'r elusen, mwyaf i gyd yw'r gofynion. Mae'r union fanylion yn dibynnu ar y math o elusen.

Bydd dogfen lywodraethu yr elusen, sef y cyfansoddiad, o bosibl yn cynnwys rheolau penodol ar gyfrifon, adroddiadau ac archwilio cyfrifon. Lle bo'r rheolau yn fwy beichus na'r gofynion a nodir yng nghanllawiau'r Comisiwn Elusennau, rhaid i'r ymddiriedolwyr ddilyn y gofynion a nodir yn y ddogfen lywodraethu, neu fel arall newid y ddogfen lywodraethu yn gyntaf.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y gofynion y mae'n rhaid eu dilyn wrth baratoi cyfrifon, cysyllter â'r Comisiwn Elusennau neu ymwelwch â'u gwefan.

Y Comisiwn Elusennau,
8fed Llawr, Tŷ Clarence, Maes Clarence,
Casnewydd NP19 7AA.
0870 3330123
www.chairty-commission.gov.uk
Ffynhonnell: Y Comisiwn Elusennau, CC61 – Cyfrifon Elusennau: Y Fframwaith

Cyllid Refeniw
Bydd cyllid refeniw yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau rhedeg prosiect neu gorff. Pethau megis cyflogau, rhent, trethi, deunydd ysgrifennu. Hefyd gellir defnyddio cyllid refeniw i hurio gwasanaethau gweithiwr proffesiynol megis pensaer i gynorthwyo gyda phrosiect cyfalaf.
Ffynhonnell: www.sbbc.co.uk

Cynghorau Tref a Chymuned
Cyrff a etholir yn ddemocrataidd yw Cynghorau Tref a Chymuned. Hwy yw'r lefel gyntaf o lywodraeth leol yng Nghymru. Mae 72 o gynghorau lleol yn Sir Gaerfyrddin. Gellir cael manylion cysylltu â chlercod Cynghorau Tref a Chymuned ar wefan y Cyngor Sir. Gall clerc y cyngor ddweud wrthych pwy yw'r Cynghorwyr Tref a Chymuned, pa bryd y maent yn cyfarfod ac ymhle.

Mae Cyngor Tref a Chymuned yn pennu 'archebiant', hynny yw, swm o arian a delir drwy eich Treth y Cyngor i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau yn eich cymuned e.e. neuadd gymunedol. Gall clerc y Cyngor Tref a Chymuned roi gwybodaeth i chi am yr archebiant ac am y gwasanaethau a ddarperir.

Cyngor Cymunedol
(gweler Cynghorau Tref a Chymuned).

Cyngor Sir
Awdurdod Lleol yw corff y mae'n ofynnol iddo yn ôl y gyfraith i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac sy'n derbyn arian gan y llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol.

Cynllun Busnes
Yr hyn sy'n gwneud cynllun busnes yn wahanol i bob cynllun arall (megis cynlluniau strategol) yw bod cynllun busnes yn cynnwys gwybodaeth ariannol fanwl a phenodol, a rhagolygon ariannol.

Bydd cynlluniau busnes sefydliadau bach yn fwy syml o bosibl na chynlluniau busnes sefydliadau mawr.

Mae cynllun busnes yn debygol o gynnwys;
- Crynodeb.
- Nodau ac amcanion y sefydliad a'r modd y mae'r prosiect yn cydweddu â hwy.
- Disgrifiad o'r prosiect.
- Dadansoddiad o'r angen.
- Arolwg o wasanaethau neu brosiectau cyffelyb neu gysylltiol a ddarperir gan sefydliadau eraill.
- Canlyniadau neu newid tymor hir y mae'r prosiect yn bwriadu eu cyflawni.
- Cynllun gwaith ar gyfer blwyddyn un gan gynnwys allbynnau y prosiect.
- Manylion am sut y bwriedir cyflawni'r canlyniadau a'r allbynnau.
- Strwythur rheoli'r prosiect.
- Cyllideb a'r rhagolygon llif arian am bob blwyddyn
- Cynllun codi arian gyda dyddiadau pwysig.
- Cynllun marchnata gyda dyddiadau pwysig.
- Crynodeb o brofiad y sefydliad o gyflawni prosiectau cyffelyb.
- Y gofynion o ran staff.
- Cynllun i barhau â'r prosiect yn dilyn y grant hwn.

Ffynhonnell: Cronfa Gymunedol a www.volcomgrants.gov.uk

Cynllun Gweithredu
Cynllun gweithredu yw disgrifiad manwl o'r camau sydd angen eu cymryd a'r tasgau sydd angen eu cyflawni er mwyn gwireddu nod arbennig neu ddatrys problem benodol.
Ffynhonnell: MoneyGlossary.com

Cynlluniau Cymunedol Lleol
(gweler Strategaeth Gymunedol Sir Gaerfyrddin).

Elusen/ Statws Elusennol/Elusen Gofrestredig
Yn fras, elusen yw corff sy'n bodoli er budd y cyhoedd.

I fod yn elusen gofrestredig a chael ei chydnabod yn elusen yn llygaid y gyfraith, rhaid i'r corff gyfyngu ei weithgareddau i un neu fwy o'r amcanion canlynol:

- Cymorth i'r tlodion, yr henoed, y rhai sâl a'r anabl, naill ai drwy gymorth uniongyrchol neu, er enghraifft, drwy ddarparu offer neu gyngor.
- Hyrwyddo crefydd.
- Hyrwyddo addysg, gan gynnwys cynorthwyo sefydliadau addysg, cylchoedd chwarae, sefydliadau ieuenctid, sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant galwedigaethol a sefydliadau ymchwil.
- Dibenion eraill sydd o fudd i'r gymuned. (Nid yw'r categori hwn mor eang ag y mae'n awgrymu.).

Adeg ysgrifennu'r llawlyfr hwn, ymgynghorir ar Fesur Elusennau newydd fydd o bosibl yn cyflwyno penawdau newydd at ddibenion elusennol.

Am ragor o gymorth dylech gysylltu â'r Comisiwn Elusennau,
8fed Llawr, Tŷ Clarence, Maes Clarence,
Casnewydd, NP19 7AA
0870 3330123
Minicom: **0870 3330125**
www.charity-commission.gov.uk
Ffynhonnell: Cronfa Gymunedol Canllaw ar Gymhwyster

Goruchwylydd Cynllunio
Person yw hwn y mae'n rhaid ie benodi i sicrhau y cedwir at y rheoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli.

Grŵp Cymunedol (at ddibenion yr UE)
Grwpiau yw'r rhain a ddiffinnir fel grwpiau anffurfiol a ffurfiol sydd ag aelodaeth o drigolion o'r ardal a dargedir, a'r trigolion yw'r mwyafrif o'r corff rheoli, ac maent yn cyflawni gweithgareddau er budd y gymuned.

Corff rheoli gwirfoddol sydd gan grwpiau neu sefydliadau cymunedol a sefydliadau di-elw, a dylai fod ganddynt gyfansoddiad neu o leiaf dylent fod yn gweithio tuag at gael cyfansoddiad.

Llif arian
Llif arian yw'r modd y mae arian yn llifo i mewn ac allan o'ch sefydliad. Os oes raid i chi wario arian (e.e. ar gyflogau neu gostau sefydlu) cyn i chi mewn gwirionedd dderbyn yr arian, yna mae gennych broblem llif arian.

Wrth lunio cyllideb i'ch prosiect rhaid i chi weithio allan y llif arian. Meddyliwch am y pethau ymarferol y mae'n rhaid iddynt ddigwydd, a'r ymrwymiadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud - recriwtio staff, dod o hyd i adeilad. Meddyliwch am yr oedi a all ddigwydd ac am y costau.

Mae rhagamcan syml o'r llif arian yn dangos man dechrau (a all fod yn ddim) ac yna, fis wrth fis, yr arian fydd yn eich tyb chi yn dod i fewn, a pha arian y tybiwch y bydd yn cael ei wario. Bob mis byddwch yn dwyn yr arian sydd mewn llaw ymlaen o'r mis diwethaf.
Ffynhonnell:
www.volcomgrants.gov.uk/ho_content/acu/content/Glossary

Mudiad gwirfoddol
Defnyddir y term cyffredinol hwn yn aml i gwmpasu amrediad eang o fudiadau. Weithiau mae'n haws diffinio yr hyn nad ydynt, a'r hyn sy'n weddill yw'r sector gwirfoddol. Nid cyrff statudol ydynt a sefydlwyd yn ôl y gyfraith, nac ychwaith mentrau preifat/masnachol. Cyfeirir atynt weithiau fel y 'trydydd sector'.

Dim ond gwirfoddolwyr all mudiad gwirfoddol eu defnyddio, neu gyflogi staff cyflogedig i gyflawni ei waith. Yr hyn sy'n ei wneud yn wirfoddol yw bod cyfrifoldeb cyfreithiol y mudiad yn gorwedd ar ysgwyddau grŵp o bobl nad ydynt yn derbyn tâl am eu gwaith a elwir yn aml yn bwyllgor rheoli, bwrdd neu bwyllgor gweithredol.

Rheoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli
Rheoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli 1994 sy'n ymwneud â materion iechyd a diogelwch.

Sefydliad Di-elw
Ystyr hyn yn fras yw sefydliad nad yw'n dosbarthu ei elw i berchnogion y sefydliad, er nad yw'r term yn cael ei gydnabod yng nghyfraith y DU. Os yw sefydliad yn dosbarthu unrhyw elw neu arian gweddill i'w aelodau neu i aelodau ei bwyllgor neu i'w gyfranddalwyr, yna mae'n sefydliad 'dros-elw'. Mae pob elusen wrth raid yn gorff di-elw.
Nid oes raid i gyrff di-elw wneud colled neu hyd yn oed lwyddo i fantoli'r llyfrau. Y pwynt pwysig yw, os oes arian mewn llaw ganddynt, bod yr arian hwnnw yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo eto fyth amcanion y corff.

Strategaeth Gymunedol Sir Gaerfyrddin
Mae'r strategaeth yn nodi'r materion pwysicaf sy'n wynebu Sir Gaerfyrddin a'i chymunedau. Mae'n nodi'r camau gweithredol y mae Partneriaeth Sir Gaerfyrddin- grŵp o bartneriaethau - yn bwriadu eu cymryd. Mae Cynlluniau Cymunedol hefyd ar gael ar gyfer yr ardaloedd canlynol - Y Gwendraeth, Taf Myrddin, Aman, Tywi, Llanelli, Teifi.

Am ragor o wybodaeth neu gopi o'r cynllun, cysyllter os gwelwch yn dda â'r:

Tîm Cynllunio Cymunedol
Neuadd y Sir, Cyngor Sir Caerfyrddin,
Caerfyrddin SA31 1JP

01267 224842
cynlluniocymunedol@sirgar.gov.uk
www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk

Y Sector Cymunedol
Y cyrff hynny sy'n weithgar ar lefel leol neu gymunedol, fel arfer y cyrff bach hynny prin eu hadnoddau sy'n ddibynnol i raddau helaeth ar ymdrechion gwirfoddol yn hytrach na staff cyflogedig. Maent yn gwbl ar wahân i'r asiantaethau mawr sydd â staff proffesiynol ac sy'n fwyaf gweladwy ym mhroffiliau'r sector gwirfoddol. Dyna'r rheswm dros gael y disgrifiad 'sector gwirfoddol a chymunedol' i gwmpasu'r cyfan.
Ffynhonnell:
http://www.volresource.org.uk/moreres/glossary.htm

Swyddi (fel y diffinnir gan WEFO)
Swyddi newydd parhaol. Swyddi yw'r rhain gaiff eu creu yn barhaol, h.y. nid swyddi am gyfnod penodol ydynt, a gellir disgwyl iddynt barhau am o leiaf 10 mlynedd. Rhaid cyfrif nifer y swyddi, nid amcangyfrif nifer y bobl a all gael eu cyflogi yn y swyddi hyn dros gyfnod o amser.
Gall y swyddi gaiff eu creu fod yn rhai uniongyrchol h.y. swyddi penodol y gellir eu nodi ac y byddwch yn gallu rhoi manylion i ni amdanynt, megis rhyw. Gallant hefyd fod yn swyddi anuniongyrchol h.y. swyddi sy'n cael eu creu na ellir eu nodi'n benodol yn ystod oes y prosiect ond swyddi sydd i'w priodoli i'r prosiect. Enghraifft o hyn yw cyfleuster i ymwelwyr yn ehangu drwy ddefnyddio cyllid strwythurol, ac mae angen i gwmni lleol gyflogi rhagor o staff yn sgîl y cynnydd mewn busnes. Os yw swyddi'n cael eu cyfrif, rhaid i'r fethodoleg fod yn glir.

Swyddi newydd dros-dro. Swyddi tymor byr a phenodol a gwaith ar gontract yw'r rhain, nad oes disgwyl iddynt barhau ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.

Swyddi a Ddiogelir. Swyddi yw'r rhain fyddai wedi cael eu colli oni bai bod arian Amcan 1 wedi dod i'r adwy. Dylid nodi'r swyddi hyn fel swyddi Cyfwerth Amser Llawn(CALl). Bydd angen tystiolaeth i ategu hyn e.e. datganiad gan gwmni y byddai aelodau o staff yn colli swyddi heblaw bod y prosiect yn mynd rhagddo.